Seindorf Beaumaris Band

**Gaeaf 2017**

## Gair gan ein Cadeirydd…

Bellach rydym yng nghanol blwyddyn academaidd arall ac wedi rhoi croeso i griw newydd sy'n dechrau ar eu taith efo'r band.

Dros yr haf, gwnaed gwaith cynnal a chadw ar y *bandroom* gan gynnwys gosod ffenestri a drysau newydd. Diolch i bawb fu'n helpu.

Llongyfarchiadau i Fred ar ddathlu ei benblwydd yn 80 yn ddiweddar. Bu'n dathlu mewn steil – un uchafbwynt oedd ymweliad, efo'i deulu, i stafell ymarfer y Black Dyke, lle cafodd arwain y band arbennig yma. Bydd yn gosod safon uwch fyth i'r LSW o hyn ymlaen!!

Bydd ein band yn chwarae yn nigwyddiadau arferol y dref – noson tân gwyllt, Sul y Cofio, a'r Diwrnod Fictorianaidd.

Ar 18 Tachwedd, byddwn yn anfon tri band i gystadlu yn Rali Gogledd Cymru ac rydan ni'n dymuno'n dda iddyn nhw.

Bydd aelodau'r band hyn unwaith eto'n cystadlu yng nghystadleuaeth band Cymru S4C, gyda'r rownd gyntaf ar 19 Tachwedd.

Byddwn yn cynnal ein Ffair Nadolig yn Neuadd y Dre Biwmaris ar 2il o Ragfyr – dewch i'n cefnogi os gwelwch yn dda, a gobeithiaf weld nifer ohonoch yn ein cyngherddau Nadolig.

Bydd Band y Dechreuwyr a'r Canolradd yn chwarae yn Eglwys Llandegfan ar 15 Rhagfyr.

Gyda'm dymuniadau gorau fel arfer

**Patsy Thomas**

### Diolch gyfeillion! Problem wedi'i datrys!

Roedd problem yn wynebu'r band yn ddiweddar – roedd ganddon ni fwy o chwaraewyr tiwba nag o diwbas!
Ond daeth y Cyfeillion i'r adwy!
Gofynnodd y Band inni helpu efo'r gost o brynu offeryn newydd – ac roedden ni'n falch o gyfrannu £2000. Maen nhw'n offerynnau drud!   Diolch o galon ichi am eich cymorth bob amser.
Bellach, mae ein hadran fas yn llawer hapusach!




*Fred, yn arwain band Black Dyke fel rhan o'i ddathliadau penblwydd!*

**Cyngerdd Nadolig Seindorf Beaumaris 2017**

**Nos Wener a Sadwrn 8 a 9 Rhagfyr 2017 7.30pm**

**Tocynnau ar werth rwan yng Nghanolfan Beaumaris.**

**Archebwch drwy ffonio 01248 811200**

*Isod, dyma'r band yn chwarae yng ngwyl fwyd Beaumaris – gwyl flynyddol hynod boblogaidd.  Rydan ni bob amser yn falch o gefnogi digwyddiadau lleol.*



***Ein dechreuwyr.*** Rhaid inni gofio lle mae'r llwyddiant yn dechrau.  Bydd 45 cerddor ein **band ieuengaf** yn agor y cyngerdd Nadolig, dan ofal Fred Evans. Yn blant rhwng pedair ac 11 oed, byddant yn perfformio caneuon adnabyddus i ni eu mwynhau.

***....***

**Gyfeillion – d'wedwch wrth eraill!**

Rydan ni bob amser yn awyddus i groesawu cyfeillion newydd i ymuno â ni a chefnogi'r band. Mae eich cyfraniad yn rhoi cefnogaeth allweddol i'n cerddorion – gan ein helpu i brynu offerynnau, dillad a phethau hanfodol eraill ar gyfer gweithgareddau'r bandiau.  **Mae nifer o'r Cyfeillion bellach yn derbyn y Cylchlythyr drwy ebost gan arbed costau postio. Os medrwch chi wneud hynny gadewch inni wybod drwy ebostio** friendsofbeaumarisband@gmail.com**.**

**Haf euraidd –** Cafwyd Awst i'w gofio yma yn Ynys Môn diolch i'r Eisteddfod Genedlaethol. A chafodd ein bandiau lwyddiant ysgubol – cipiodd y band ieuenctid y wobr gyntaf yn y bedwaredd adran, gyda'r band hŷn yn fuddugol yn y drydedd adran.



Gwyn Evans fu'n paratoi'r ddau fand at yr Eisteddfod. Gwyn hefyd fu'n arwain y Band Ieuenctid yn y Brifwyl. Ond fe estynnodd wahoddiad i'w hen gyfaill o Norwy, Morten Hansen, i arwain y band hŷn ar ein llwyfan cenedlaethol.

A dyma'r ddau yn dathlu efo cwpannau'r pencamwyr!!

